

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD & YNYS MÔN (2011 – 2026)

ARCHWILIAD CYHOEDDUS:

Sesiwn gwrandawriad 3 – Dosbarthiad Gofodol



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Pwynt Gweithredu (S3/PG4) – Darparu cyfleoedd ar hap

1] Y mater dan ystyriaeth:

Paratoi papur sy'n mynegi sut mae'r Cynllun yn darparu cyfleoedd ar hap o fewn aneddeuoedd gwledig a threfol i gwrdd â'r twf dangosol a'i hadnabyddir. Dylid darparu esiamplau penodol o aneddeuoedd wrth wneud hyn, gan ddangos ffiniau datblygu o gynlluniau presennol ac egluro unrhyw achosion eithriadol ("anomaly"). Dylid rhoi esboniad o'r ffigwr hap, sy'n ymddangos yn uchel.

2] Ymateb y Cynghorau:

Beth ydi 'safleoedd ar hap'

- 2.1 'Roedd Polisi TAI 14 – Polisi TAI 17 fel y cawsant eu cyflwyno yn y Cynllun Adnau yn rhoi rhif dangosol o unedau tai allir eu datblygu ar beth oedd yn cael eu disgrifio adeg hynny fel 'safleoedd ar hap'. O fewn y cyd-destun yma, fe wnaeth y Cynllun geisio egluro trwy troednodyn bod y 'safleoedd ar hap' yn cynnwys: (i) safleoedd sydd gan ganiatad cynllunio cyfredol heb ei gwblhau neu heb ei ddechrau, a (ii) safleoedd nad oes gan hanes cynllunio cyfredol. Er enghraifft, mae Polisi TAI 14 yn y Cynllun Adnau yn cofnodi gall cyfanswm 393 unedau tai gael eu datblygu ar y dynodiadau tai amrywiol ar gyfer Bangor ac y gall 479 unedau tai gael eu hadeiladu/ darparu ar safleoedd ar hap. Mae'r troednodyn yn nodi bod yna ganiatad cynllunio yn barod ar gyfer rhai o'r unedau tai yn y cyfanswm ar hap. Mae hyn yn ychwanegol i'r 97 o unedau tai oedd wedi cael eu hadeiladu yn barod rhwng 2011 – 2014. Yn yr un modd, mae Polisi TAI 17 yn y Cynllun Adnau yn dweud gallai cyfanswm o 27 unedau tai gael eu hadeiladu/ darparu ar safleoedd ar hap yn Llandegfan, gyda'r troednodyn eto'n cyfeirio at fodolaeth unedau tai efo caniatad cynllunio yn barod.

Anheddle	Cyfanswm unedau tai ar ddynodiadau	Cyfanswm dangosol unedau tai ar safleoedd ar hap
Bangor	393	479
Llandegfan	0	27
Geiriad y troednodyn ar gyfer Polisi TAI 14 – Polisi TAI 17 “Bydd gan rai unedau ganiatâd cynllunio'n barod yn Ebrill 2014 (gweler Atodiad 5).”		

2.2 I ymateb i Bwynt Gweithredu S4/ PG2, ac yn sgil trafodaethau mewn Sesiynau Gwrandawiadau eraill (lle gwelwyd nad oedd y Cynllun ddigon clir/ yn gyson gyda terminoleg a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, o ran beth olygir gyda 'safleoedd ar hap') mae'r Cynghorau wedi cynnig Newid Materion sy'n Codi i'r Rhestr Termau, fel a ganlyn:

Safleoedd ar hap:

“Safle na chafodd ei ddynodi yn benodol ar gyfer ei ddatblygu yn y Cynllun, ond a ddaw ar gael i'w ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun. Cyfeirir at “safleoedd ar hap” yng nghyd-destun tai gan amlaf” (rhestr termau diwygiedig S4/PG2).

Faint o unedau ddisgwyllir ar safleoedd ar hap?

2.3 Mae polisïau tai'r Cynllun yn cyfeirio at rôl safleoedd oedd eisoes efo caniatâd cynllunio i gyfarch y galw am dai newydd yn ystod oes y Cynllun. Er mwyn rhoi darlun o faint o'r cyfanswm dangosol o unedau tai ar gyfer aneddeleoedd unigol oedd wedi cael eu hadeiladu ers 2011 neu allai gael eu hadeiladu/ darparu ar safleoedd oedd eisoes efo caniatâd cynllunio (h.y. ymrwymadau (banc tir) (tai)), fe roddwyd ystadegau am hynny yn Atodiad 5 i'r Cynllun Adnau. Mae'r ystadegau yn Atodiad 5 yn y Cynllun Adnau yn seiliedig ar yr Astudiaethau Tir ar gyfer Tai Ebrill 2014. Dyma'r wybodaeth oedd ar gael adeg paratoi'r Cynllun Adnau. Ar y pryd, 'roedd y Cynghorau o'r farn byddai hynny yn rhoi darlun i'r darllenydd o faint o unedau tai allai gael eu hadeiladu/ darparu ar safleoedd eraill o fewn y ffiniau datblygu neu safleoedd du allan i ffiniau datblygu a fyddai'n cyd-fynd efo polisïau perthnasol y Cynllun.

2.4 I ymateb i sylwadau a gafwyd ac ymateb i gwestiynau'r Arolygydd ar gyfer y Gwrandawiadau, fe gafodd y wybodaeth am ba fathau o safleoedd fydd yn cyfrannu i'r cyflenwad tai ei fireinio a'i ddiweddarau i gyfeirio at wybodaeth sail 2015. Cafodd y wybodaeth ei roi fesul categori yn y Goeden Aneddeleoedd. Cafodd y tablau yma eu cynnwys fel atodiad i ddatganiad y Cynghorau ar gyfer Gwrandawiadau 2 a 3. Yn ystod trafodaeth yn y Gwrandawiadau yma, fe awgrymwyd bod y tablau yn cael eu mireinio ymhellach i sicrhau eglurder yn y termau a ddefnyddir ym mhenawdau'r tabl. Mae'r Cynghorau wedi gwneud hynny i ymateb i Bwynt Gweithredu S3/PG8 (gweler Dogfennau'r Archwiliad ar wefan y Cyngor).

2.5 O ddadansoddi'r wybodaeth am y sefyllfa ym mhob anheddle yn Ebrill 2015 rhagwelir bydd 33% o gyfanswm y cyflenwad o fewn Canolfannau a Phentrefi yn cael ei

ddatblygu/ darparu ar safleoedd oedd gan ganiatâd cynllunio cyfredol yn Ebrill 2015. Mae'r egwyddor o ddatblygu eisoes wedi cael ei dderbyn ac felly ceir elfen o sicrwydd gyda rhain. Rhagwelir mai dim ond 38% o'r cyflenwad ddisgwylir i gael ei adeiladu/ darparu ar safleoedd ar hap oedd heb ganiatâd cynllunio yn Ebrill 2015 yn y Canolfannau a'r Pentrefi. Mae'r canran ychydig yn is (28%) ar gyfer y categori Pentrefi Lleol/ Arfordirol/ Gwledig, er nad oes sail polisi ar gyfer dynodi tir yn yr anedlleoedd yma.

Sut cafodd cyfleoedd ar hap eu hadnabod yn y Ganolfan Is-ranbarthol ac mewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol?

- 2.6 Cafodd Astudiaeth Capasiti Trefol ei wneud i gofnodi cyfleoedd ar gyfer adeiladu/ darparu unedau tai o fewn ffurf adeiledig y Canolfannau unigol. Cafodd yr adroddiad am yr Astudiaeth Capasiti Trefol ei gyhoeddi a'i gynnwys yn Llyfrgell yr Archwiliad (PT.013). Mae'r fethodoleg fanwl yn cynnwys gwaith maes, gwaith pen desg ac ymgynghori gyda swyddogion rheolaeth datblygu a swyddogion priffyrdd. O ddilyn y fethodoleg, ceir ciplun o faint o unedau tai allir eu cael trwy wneud defnydd o safleoedd gwag (oedd heb ganiatâd cynllunio ar y pryd) a gwneud defnydd o adeiladau neu rannau o adeiladau sy'n bodoli ar hyn o bryd (oedd heb ganiatâd cynllunio ar y pryd). Trwy ddefnyddio'r dwysedd adeiladu safonol (sef 30 uned yr hectar) nid oedd 'run o'r safleoedd gwag a gafodd eu hadnabod yn yr Asesiad Capasiti Trefol yn debygol o ildio 5 neu fwy o unedau tai. Oherwydd hynny, ni chawsant eu dynodi yn y Cynllun. Fe allai safleoedd ychwanegol/ gwahanol ddod i'r amlwg yn ystod oes y Cynllun, e.e. trwy rhaglen moderneiddio ysgolion, strategaethau rhesymoli eiddo cyrff cyhoeddus a phreifat, busnesau yn cau i lawr, ayb. Nid yw 'run o'r safleoedd ar hap a gofnodwyd yn yr Astudiaeth Capasiti Trefol yn cynnwys safleoedd cyflogaeth sy'n cael eu hadnabod ym Mholisi CYF 1.
- 2.7 Mae ffiniau datblygu wedi cael eu llunio ar gyfer Canolfannau'r Cynllun i gynnwys ffurf adeiledig anedlleoedd, dynodiadau tai, ymrwymadau a chyfleoedd ar gyfer safleoedd ar hap. Cafodd ffiniau datblygu Cynllun Datblygu Unedol Mon (wedi ei stopio) a Chynllun Datblygu Unedol Gwynedd eu hadolygu i adlewyrchu datblygiad sydd wedi digwydd yn yr anedlleoedd ers i'r cynlluniau datblygu yma gael eu paratoi ac i roi ystyriaeth i safleoedd oedd efo caniatâd cynllunio cyfredol (ymrwymadau) ac unrhyw achosion eithriadol ("anomalies"), e.e. adeiladau na chafodd eu cynnwys tro blaen neu adeiladau a gafodd eu cynnwys tro blaen oedd yn amhriodol eu cynnwys tro yma. 'Roedd gwneud hyn yn lle synhwyrol i gychwyn. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y lefel o dwf ar gyfer ardal y Cynllun yn wahanol ac mae ei amcanion, strategaeth ofodol a'i bolisiâu yn wahanol i'r cynlluniau cyfredol a blaenorol. Penderfynwyd peidio cynnwys safleoedd ar ymyl Canolfannau a'r Pentrefi lle 'roedd caniatâd cynllunio cyfredol am dai fforddiadwy ar safleoedd eithrio oedd heb eu hadeiladu neu oedd ar ganol eu hadeiladu er mwyn ceisio sicrhau bod y caniatâd yn cael ei weithredu yn unol a'r polisi perthnasol yn y cynllun datblygu cyfredol ac i gadarnhau'r canfyddiad mai fel eithriad i bolisi tai marchnad agored rhoddwyd caniatad. Mynegwyd pryder y gallai eu cynnwys du mewn i ffiniau datblygu arwain at ohirio adeiladu er mwyn manteisio ar leoliad du mewn i ffin yn y Cynllun newydd.
- 2.8 Dyma'r fformiwla ystadegol a gafodd ei ddefnyddio i lunio'r ffiniau datblygu: lleoliad tai oedd wedi cael eu hadeiladu ers 2011 + safleoedd efo caniatâd cynllunio heb eu

cwblhau (ymrwymiadau) + cyfleoedd ar hap yn codi o'r Astudiaeth Capasiti Trefol + dynodiadau tai i gyfarch y cyflenwad o unedau tai sydd ei angen ar gyfer y Ganolfan.

2.9 Mae Atodiad 1 i'r papur yma yn cynnwys mapiau sydd yn rhoi ciplun o'r sefyllfa cyflenwad tir yn Ebrill 2015 ar gyfer y Canolfannau canlynol, fel enghreifftiau o'r haen yma yn y Goeden Aneddleoedd: Bangor, Caernarfon, Llangefni, Benllech, a Llanrug.

2.10 Os ymddengys bod yna newidiadau 'arwyddocaol' rhwng y ffiniau datblygu o un Cynllun i'r llall, h.y. safleoedd yn cael eu tynnu allan o'r ffiniau, mae'r tabl yn egluro hynny.

Anheddle	Nodiadau
Bangor	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel dangosol = 969 • Nifer o dai wedi cael eu hadeiladu 2011 – 2015 = 211 • Nifer o dai efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2015 (ymrwymiadau) = 398 • Dynodiadau heb ganiatâd cynllunio = 148 • Unedau ar safleoedd ar hap = 212 • Rheswm am newid 'arwyddocaol' yn y ffin datblygu - Ni chafodd tir i'r dwyrain o Ysbyty Gwynedd ac felly rhan o ddynodiad tai yn y CDU ei gynnwys oherwydd bod safleoedd amgen ar gael, gan gynnwys cyfleoedd a chafodd eu hadnabod trwy'r Astudiaeth Capasiti Trefol. Yn ychwanegol, erbyn hyn, mae'r dynodiad tai yng nghategori 4 yr Astudiaeth Tir ar gyfer Tai 2016 oherwydd ei fod wedi bod yn cael ei gyfrif yn yr Astudiaeth ers dros 5 mlynedd, heb unrhyw gynnydd. <p>Ar sail hyn, fe allai'r gwahanol elfennau o'r cyflenwad tai ildio nifer o unedau tai sy'n angenrheidiol i alinio efo'r cyflenwad dangosol a ddosrannwyd i'r Ganolfan.</p>
Caernarfon	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel dangosol = 415 • Nifer o dai wedi cael eu hadeiladu 2011 – 2015 = 41 • Nifer o dai efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2015 (ymrwymiadau) = 191 • Dynodiadau heb ganiatâd cynllunio = 71 • Unedau ar safleoedd ar hap = 112 • Rhesymau am newid 'arwyddocaol' yn y ffin datblygu - • Ni chafodd tir ar hyd Lon Santes Helen ei gynnwys yn y ffin datblygu oherwydd ei fod mewn parth llifogydd. • Ni chafodd tir yn Nyffryn Cadnant ei gynnwys tu mewn i'r ffin datblygu oherwydd ei fod mewn parth llifogydd. • Ni chafodd tir ar Ffordd Llanberis nac felly ddynodiad tai yn y CDU ei gynnwys oherwydd bod safleoedd amgen ar gael, gan gynnwys cyfleoedd a chafodd eu hadnabod trwy'r Astudiaeth Capasiti Trefol, i gyfarch y cyflenwad. Yn

Anheddle	Nodiadau
	<p>ychwanegol, erbyn hyn, mae'r dynodiad tai sydd yn y CDU yng nghategori 4 yr Astudiaeth Tir ar gyfer Tai 2016 oherwydd ei fod wedi bod yn cael ei gyfrif yn yr Astudiaeth ers dros 5 mlynedd, heb unrhyw gynnydd.</p> <p>Ar sail hyn, fe allai'r gwahanol elfennau o'r cyflenwad tai ildio nifer o unedau tai sy'n angenrheidiol i alinio efo'r cyflenwad dangosol a ddosrannwyd i'r Ganolfan.</p>
Llangefni	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel dangosol = 673 • Nifer o dai wedi cael eu hadeiladu 2011 – 2015 = 57 • Nifer o dai efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2015 (ymrwymiadau) = 91 • Dynodiadau heb ganiatâd cynllunio = 443 • Unedau ar safleoedd ar hap = 82 <p>Rheswm am newid 'arwyddocaol' yn y ffin datblygu -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ni chafodd tir i'r dwyrain o Bryn Cefni ei gynnwys oherwydd nad yw'n ffurfio rhan o ffurf adeiledig Llangefni. <p>Ar sail hyn, fe allai'r gwahanol elfennau o'r cyflenwad tai ildio nifer o unedau tai sy'n angenrheidiol i alinio efo'r cyflenwad dangosol a ddosrannwyd i'r Ganolfan.</p>
Benllech	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel dangosol = 90 • Nifer o dai wedi cael eu hadeiladu 2011 – 2015 = 45 • Nifer o dai efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2015 (ymrwymiadau) = 25 • Dynodiadau heb ganiatâd cynllunio = 12 • Unedau ar safleoedd ar hap = 8 <p>Ar sail hyn, fe allai'r gwahanol elfennau o'r cyflenwad tai ildio nifer o unedau tai sy'n angenrheidiol i alinio efo'r cyflenwad dangosol a ddosrannwyd i'r Ganolfan.</p>
Llanrug	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel dangosol = 61 • Nifer o dai wedi cael eu hadeiladu 2011 – 2015 = 18 • Nifer o dai efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2015 (ymrwymiadau) = 34 • Dynodiadau heb ganiatâd cynllunio = 0 • Unedau ar safleoedd ar hap = 9 <p>Ar sail hyn, fe allai'r gwahanol elfennau o'r cyflenwad tai ildio nifer o unedau tai sy'n angenrheidiol i alinio efo'r cyflenwad dangosol a ddosrannwyd i'r Ganolfan.</p>

Sut cafodd cyfleoedd ar hap eu hadnabod yn y gwahanol Bentrefi?

2.11 Mae'r Cynllun yn cyfeirio 25% o'r twf tai i Bentrefi amrywiol y Cynllun, y Clystyrau a Chefn Gwlad. Nid yw statws yr anheddle yng Nghoeden Aneddleoedd y Cynllun yn dibynnu ar faint o bobl sy'n byw ynddynt na'i rôl yn y cynlluniau datblygu cyfredol.

Mae Papur Testun 5A yn cydnabod bod yna wahaniaethau o fewn ardal wledig y Cynllun. Trwy asesu gwybodaeth am yr aneddeleoedd unigol a'r ardal o'u cwmpas gwelwyd nad ydi pob pentref yn chwarae'r un rôl a'i gilydd, bod yna wahaniaeth yn argaeledd cyfleusterau a gwasanaethau ynddynt, bod patrwm datblygu hanesyddol a'r defnydd o dai mewn rhai yn golygu nad ydi'r stoc tai yn cyfarch gofynion aelwydydd lleol cystal ag y dylent.

- 2.12 Mae sicrhau tai ar gyfer aelwydydd lleol yn achosi pryder ar draws pob cymuned o fewn yr ardaloedd gwledig. Mae'r mater yn waeth mewn rhai cymunedau oherwydd bod y gymysgedd o dai presennol yn cael ei nodweddu gan eiddo gwerth uchel sydd du hwnt i incwm llawer o aelwydydd lleol, pwysau oddi wrth aelwydydd sydd yn symud i ardaloedd gwledig, yn ogystal a diffyg cyfleoedd i adeiladu tai newydd priodol yn y gorffennol. Mae'r Cynllun yn cynnwys Polisi TAI 5 Tai Marchnad Leol i ddechrau mynd i'r afael a'r mater yma.
- 2.13 Mae rhai Pentrefi yn gweithredu fel ffocws i gymunedau mwy eang oherwydd bodolaeth cyfleusterau a gwasanaethau allweddol. Mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel Pentrefi Gwasanaeth. Oherwydd hynny, mae'r Cynllun yn cyfeirio mwy o unedau tai newydd iddynt na'r pentrefi eraill, gan gynnwys dynodiad tai os oes angen un. Ni chafwyd Astudiaeth Capasiti Trefol o'r Pentrefi Gwasanaeth oherwydd eu maint, eu rôl a'r lefel twf dangosol sy'n cael ei gyfeirio iddynt. Ar ôl adnabod y lefel twf dangosol edrychwyd ar faint o unedau tai oedd wedi cael eu hadeiladu yn barod ers 2011, lleoliad a phwrpas safleoedd oedd efo caniatâd cynllunio cyfredol, a gwaith pen desg yn defnyddio gwybodaeth GIS, lluniau o'r awyr a gwybodaeth leol i adnabod 'tir gwyn' posib o fewn neu wrth ymyl datblygiad presennol (h.y. safleoedd mewnlenwi neu safleoedd i dalgrynnu datblygiad presennol). Mewn achosion lle roedd diffyg cyfleoedd i gyfarch y galw, cafodd dynodiadau eu hadnabod.
- 2.14 Mae'r Cynllun yn cyfeirio twf hefyd i'r pentrefi eraill, sef y Pentrefi Gwledig/ Lleol/ Arfordirol. Er mwyn gwella cynaliadwyedd cymdeithasol y pentrefi sydd ddim yn disgyn o dan Bolisi TAI 5, mae Polisi TAI 17 Tai mewn pentrefi lleol, gwledig ac arfordirol, Polisi TAI 9 Trothwy tai fforddiadwy a'u dosbarthiad a Pholisi TAI 10 Safleoedd eithrio i gyd yn hyrwyddo cymysgedd o dai marchnad agored a thai fforddiadwy iddynt. Mae'r pwyslais ym Mholisi TAI 17 a Pholisi TAI 10 ar hyrwyddo tai ar raddfa sy'n briodol i'r anheddle a bod y gyfradd newid yn digwydd yn raddol. Felly, bydd y ddarpariaeth yn dod trwy gyfleoedd graddfa bach yn gyson gyda statws yr anheddle yn y Goeden Aneddeleoedd. Byddai'r cyfleoedd yma ar safleoedd bach a ddisgrifir yn gyffredinol fel mewnlenwi, dalgrynnu, neu estyniadau bach i ffurf adeiledig presennol yr anheddle. Ar y cyfan, mae hyn yn gyson gyda phrofiad hanesyddol yn y pentrefi lle gwelwyd tai yn cael eu hadeiladu ar safleoedd bach ac addasu adeiladau presennol.
- 2.15 Trwy ddangos yn glir pa dir gallai gael ei ystyried 'wrth ymyl' ffiniau datblygu mae gan y ffiniau datblygu rôl bwysig i'w chwarae yng nghyd-destun Polisi TAI 10.
- 2.16 Bydd Polisi TAI 1 a Chanllaw Cynllunio Atodol - Math a Chymysgedd o Dai yn rhoi fframwaith i sicrhau y ceir tai sy'n cyfarch gofynion aelwydydd lleol. Bydd hyn yn

cyfrannu at gryfhau cydlyniad cymunedol, cyfrannu at cydbwysedd oedran mewn cymunedau a chynorthwyo i fynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol a gwledig.

- 2.17 Ni chafwyd Astudiaeth Capasiti Trefol o'r Pentrefi oherwydd eu maint, eu rôl a'r lefel twf dangosol sy'n cael ei gyfeirio iddynt. Ar ôl adnabod y lefel twf dangosol edrychwyd ar faint o unedau tai oedd wedi cael eu hadeiladu yn barod, lleoliad safleoedd oedd efo caniatâd cynllunio cyfredol, a gwaith pen desg yn defnyddio gwybodaeth GIS, lluniau o'r awyr a gwybodaeth leol i adnabod 'tir gwyn'/ cyfleoedd datblygu posib o fewn neu wrth ymyl datblygiad presennol. Felly, mae'r ffiniau datblygu o gwmpas y Pentrefi wedi cael eu tynnu i hwyluso datblygu tai o fewn ac wrth ymyl y Pentrefi, a fydd yn cwrdd a'r gronfa tai ar gyfer yr haen yma o aneddeleoedd yn y Cynllun, h.y. cyfanswm o 1,479 unedau tai. Nid oedd y Cynghorau am adnabod gormodedd o 'dir gwyn' du mewn i ffiniau datblygu y Pentrefi er mwyn osgoi sefyllfa o or-ddarpariaeth, ystumio'r strategaeth ac felly methiant i gwrdd gyda Strategaeth Ofodol y Cynllun. Cofier hefyd bod y darpariaeth tai yn cynnwys 10% o lwfans llithriad ar draws aneddeleoedd y Cynllun. 'Roedd y wybodaeth ystadegol a gyflwynwyd yn y tablau yn yr atodiad i Ddatganiad y Cyngor ar gyfer Gwrandawriad 2 a 3 ac a gyfeiriwyd atynt mewn Gwrandawriadau safle penodol yn rhoi darlun o'r cyflenwad tai fel y'i cofnodwyd yn Ebrill 2015.
- 2.18 Credir bod y ffiniau datblygu yn mynd i sicrhau bydd datblygiad newydd yn gweddu o ran graddfa a lleoliad i ffurf a chymeriad y Pentrefi.
- 2.19 Mae Atodiad 2 i'r papur yma yn cynnwys mapiau ar gyfer y Pentrefi canlynol, fel enghreifftiau o'r haen yma yn y Goeden Aneddeleoedd: Aberdaron, Abererch, Bodffordd, Bontnewydd, Carmel, Cwm y Glo, Gwalchmai, Llandegfan, Llanfachraeth, Trearddur a Thudweiliog.
- 2.20 Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa yn Ebrill 2015 o ran y cyflenwad tai o'i gymharu a'r lefel twf dangosol ac yn egluro lle gwelir newidiadau 'arwyddocaol' yn y ffiniau datblygu rhwng gwahanol gynlluniau. Mae'r enghreifftiau yma hefyd yn cynnwys 'ffigyrâu eithriadol', sydd hefyd yn cael sylw yn ymateb y Cynghorau i Bwynt Gweithredu S3/ PG8 lefel twf ar hap newydd, h.y. lle mae cyfanswm cronol ar gyfer Pentref yn uwch na'r cyfanswm dangosol a gafodd ei ddyrannu iddo. Mae'r senarios yma yn digwydd mewn Pentrefi lle mae polisïau cynlluniau datblygu presennol wedi hwyluso adeiladu tai newydd ers 2011 ac maent yn dal i hwyluso unedau tai newydd trwy ymrwymadau byw – gyda'i gilydd mae'r rhain yn rhoi lefel uwch o dwf nag sy'n cael ei gynnig yn y Cynllun sydd ar y gweill. Bydd monitro blynyddol o'r Cynllun yn galluogi'r Cynghorau i ystyried effaith adeiladu'r unedau tai ychwanegol yma ar strategaeth ofodol y Cynllun.

Anheddle	Nodiadau
Aberdaron (Pentref Arfordirol/ Gwledig)	<ul style="list-style-type: none"> Lefel dangosol = 13 Nifer o dai wedi cael eu hadeiladu 2011 – 2015 = 4 Nifer o dai efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2015

	<p>(ymrwymiadau) = 2</p> <ul style="list-style-type: none"> • Unedau ar safleoedd ar hap = 7 • Cyfleoedd du mewn i'r ffin, safleoedd eithrio gwledig <p>Ar sail hyn, fe allai'r gwahanol elfennau o'r cyflenwad tai ildio nifer o unedau tai sy'n angenrheidiol i alinio efo'r cyflenwad dangosol a ddosrannwyd i'r Pentref.</p>
Abererch (Pentref Lleol)	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel dangosol = 9 • Nifer o dai wedi cael eu hadeiladu 2011 – 2015 = 1 • Nifer o dai efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2015 (ymrwymiadau) = 1 • Unedau ar safleoedd ar hap = 7 <p>Rhesymau am newid 'arwyddocaol yn y ffin datblygu -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dynodiad tai yn y CDU wedi ei dynnu allan – dim cais cynllunio adeg paratoi'r Cynllun Adnau; • Tir wedi cael ei gynnwys ym mhen dwyreiniol y pentref. • Cyfleoedd du mewn i'r ffin, safleoedd eithrio gwledig <p>Ar sail hyn, fe allai'r gwahanol elfennau o'r cyflenwad tai ildio nifer o unedau tai sy'n angenrheidiol i alinio efo'r cyflenwad dangosol a ddosrannwyd i'r Pentref.</p>
Bontnewydd (Pentref Gwasanaeth)	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel dangosol = 40 • Nifer o dai wedi cael eu hadeiladu 2011 – 2015 = 1 • Nifer o dai efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2015 (ymrwymiad) = 29 (yn cynnwys dynodiad tai) • Dynodiad tai ychwanegol = 10 <p>Ar sail hyn, fe allai'r gwahanol elfennau o'r cyflenwad tai ildio nifer o unedau tai sy'n angenrheidiol i alinio efo'r cyflenwad dangosol a ddosrannwyd i'r Pentref.</p>
Bodffordd (Pentref Lleol)	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel dangosol = 22 • Nifer o dai wedi cael eu hadeiladu 2011 – 2015 = 2 • Nifer o dai efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2015 (ymrwymiadau) = 0 • Unedau ar safleoedd ar hap = 20 • Cyfleoedd du mewn i'r ffin, safleoedd eithrio gwledig <p>Ar sail hyn, fe allai'r gwahanol elfennau o'r cyflenwad tai ildio nifer o unedau tai sy'n angenrheidiol i alinio efo'r cyflenwad dangosol a ddosrannwyd i'r Pentref.</p>
Carmel (Pentref Lleol)	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel dangosol = 12 • Unedau tai ar safleoedd ar hap = 12 • Cyfleoedd du mewn i'r ffin, gan gynnwys cyfleoedd i ail-ddatblygu safle, safleoedd eithrio gwledig <p>Ar sail hyn, fe allai'r gwahanol elfennau o'r cyflenwad tai ildio nifer o unedau tai sy'n angenrheidiol i alinio efo'r cyflenwad dangosol a ddosrannwyd i'r Pentref.</p>
Cwm y Glo (Pentref Lleol)	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel dangosol = 13 • Nifer o dai wedi cael eu hadeiladu 2011 – 2015 = 6

	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer o dai efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2015 (ymrwymadau) = 11 • Caniatâd cynllunio hanesyddol (ers 2005) oedd wedi ei gadw ond gafodd ei adeiladu ar ôl i'r Cynllun Adnau gael ei baratoi. <p>Ar sail hyn, pe fyddai'r unedau tai sydd gan ganiatâd cynllunio cyfredol eu hadeiladu, bydd y gwahanol elfennau o'r cyflenwad tai yn ildio ychydig mwy o unedau tai (+4) na welir yn cyflenwad dangosol a ddsrannwyd i'r Pentref.</p>
Gwalchmai (Pentref Gwasanaeth)	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel dangosol = 40 • Nifer o dai wedi cael eu hadeiladu 2011 – 2015 = 1 • Nifer o dai efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2015 (ymrwymadau) = 12 • Dynodiad tai = 28 <p>Ar sail hyn, pe fyddai'r unedau tai sydd gan ganiatâd cynllunio cyfredol eu hadeiladu, bydd y gwahanol elfennau o'r cyflenwad tai yn ildio ychydig mwy o unedau tai (+1) na welir yn cyflenwad dangosol a ddsrannwyd i'r Pentref.</p>
Llandegfan (Pentref Lleol)	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel dangosol = 27 • Nifer o dai wedi cael eu hadeiladu 2011 – 2015 = 0 • Nifer o dai efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2015 (ymrwymadau) = 10 (gweler 4.1 – 4.2) • Unedau ar safleoedd ar hap = 17 (gweler 4.1 – 4.2) • Rheswm am y newid 'arwyddocaol' yn y ffin datblygu - tir ar gyfer defnydd chwarae/ adloniant wedi cael ei dynnu allan oherwydd nad os cynllun ar ei gyfer erbyn rwan. • Cyfleoedd du mewn i'r ffin, gan gynnwys cyfleoedd i ail-ddatblygu safle, safleoedd eithrio gwledig <p>Ar sail hyn, fe allai'r gwahanol elfennau o'r cyflenwad tai ildio nifer o unedau tai sy'n angenrheidiol i alinio efo'r cyflenwad dangosol a ddsrannwyd i'r Pentref.</p>
Trearddur (Pentref Arfordirol/ Gwledig)	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel dangosol = 32 • Nifer o dai wedi cael eu hadeiladu 2011 – 2015 = 28 • Nifer o dai efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2015 (ymrwymadau) = 49 • Safleoedd wedi cael eu cadw allan o'r ffin sydd efo caniatâd cynllunio cyfredol ers nifer fawr o flynyddoedd a/ neu hefyd ym mharth llifogydd C2 <p>Ar sail hyn, pe fyddai'r unedau tai sydd gan ganiatâd cynllunio cyfredol eu hadeiladu, bydd y gwahanol elfennau o'r cyflenwad tai yn ildio mwy o unedau tai (+45) na welir yn cyflenwad dangosol a ddsrannwyd i'r Pentref.</p>
Tudweiliog (Pentref Lleol)	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel dangosol = 12 • Nifer o dai wedi cael eu hadeiladu 2011 – 2015 = 2

	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer o dai efo caniatâd cynllunio yn Ebrill 2015 (ymrwymiadau) = 4 • Unedau ar safleoedd ar hap = 6 • Cyfleoedd du mewn i'r ffin, gan gynnwys cyfleoedd i ail-ddatblygu safle, safleoedd eithrio gwledig. <p>Ar sail hyn, fe allai'r gwahanol elfennau o'r cyflenwad tai ildio nifer o unedau tai sy'n angenrheidiol i alinio efo'r cyflenwad dangosol a ddosrannwyd i'r Pentref.</p>
--	--

Pwynt Gweithredu (S15/PG2) – Llandegfan

3] Y mater dan ystyriaeth:

Adolygu'r wybodaeth am ganiatâd cynllunio a datblygu a gyfeiriwyd ato, cyfeirio ato yn y papur sy'n cael ei baratoi mewn ymateb i Bwynt Gweithredu S3/PG4, a chynnig Newid Materion sy'n Codi, os oes angen.


4] Ymateb y Cynghorau

- 4.1 Yn ystod Gwrandawriad 15 fe gyfeiriodd gwrthwynebydd at ystadegau a gafodd gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, a oedd yn ei farn ef yn awgrymu bod y wybodaeth mewn atodiad i Ddatganiad y Cyngor i Wrandawriad 2 a 3 ar gyfer Llandegfan yn anghywir. Gweler copi o'r wybodaeth oedd y gwrthwynebydd yn gyfeirio ato yn Atodiad A i'r papur yma. Awgrymodd bod y cyfeiriad at 11 o unedau efo caniatâd cynllunio yn Natganiad y Cyngor yn cynnwys safleoedd yn Llandegfan a Hen Llandegfan.
- 4.2 Noder bod yr ystadegau mae'r gwrthwynebydd yn gyfeirio ato yn deillio o gronfa wybodaeth y Cynghorau am yr Astudiaeth Tir ar Gyfer Tai **Ebrill 2016**. Mae'r tablau yn yr atodiadau i Ddatganiadau'r Cyngor yn cyfeirio at y gronfa wybodaeth am yr Astudiaeth Tir ar Gyfer Tai **Ebrill 2015**. Defnyddiwyd gwybodaeth o'r Astudiaeth yma yn hytrach na'r un ar gyfer 2016 oherwydd nad oedd hwnnw yn gyflawn pan gafodd y datganiadau eu paratoi, h.y. nad oedd cofnod o bob safle a archwiliwyd wedi cael ei gofnodi. Ar sail hynny, roedd hi fwy priodol i gyfeirio at Astudiaeth 2015. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y caniatâd cynllunio yn Ebrill 2015, sy'n rhoi cyfanswm o 10 o unedau tai yn Llandegfan nid 11 fel a welwyd Natganiadau'r Cynghorau. Mae'r tabl yn egluro'r gwahaniaeth rhwng canfyddiadau Astudiaethau Ebrill 2015 a 2016 hefyd.

Caniatâd Cynllunio	Lleoliad	Anheddle	Unedau efo caniatâd yn Ebrill 2015	Sylwadau
17C122H	Cefn Dolwyn/ ger Iscoed	Llandegfan	1	1 uned heb gychwyn yn Ebrill 2016
17C490	Maldwyn House & Stores	Llandegfan	1	1 uned ar ganol ei adeiladu Ebrill 2016
A23D	Ger Hafod Lon	Llandegfan	2	1 wedi cael ei adeiladu rhwng 2015 – 2016 + 1 uned ar ganol ei adeiladu Ebrill 2016
17C404B/DA	Hafod Wen	Llandegfan	2	2 uned ar ganol eu hadeiladu Ebrill 2016
17LPA923A/CC	Hen Ysgol	Llandegfan	4	Caniatâd wedi rhedeg allan yn ystod 2015 - 2016
Cyfanswm unedau efo caniatâd cynllunio Ebrill 2015		Llandegfan	10	

- 4.3 Nid oes angen Newid Materion sy'n Codi i ymateb i'r sylw yma. Mae'r lefel twf dangosol ar gyfer Llandegfan yn aros 'run fath a'r hyn a gofnodwyd yn Nhabl 20 sydd yn yr eglurhad i Bolisi TAI 17.

Bangor 1







Allwedd / Key

-  Ffin Datblygu - CDU / UDP Development Boundary
-  Ffin Datblygu (Adnau) / Development Boundary (Deposit)
-  Ffin Datblygu (NFf) / Development Boundary (FCh)
-  Llecynnau Agored i'w Gwarchod / Protected Open Space
-  Dynodiad Tai Heb Ganiatâd / Housing Allocation without Permission
-  Dynodiad Tai Hefo Caniatad / Housing Allocation with Permission
-  Cyflogaeth / Employment

Bangor 2

Allwedd / Key


-  Ffin Datblygu - CDU / UDP Development Boundary
-  Ffin Datblygu (Adnau) / Development Boundary (Deposit)
-  Ffin Datblygu (NFf) / Development Boundary (FCh)
-  Llecynnau Agored i'w Gwarchod / Protected Open Space
-  Dynodiad Tai Heb Ganiatâd / Housing Allocation without Permission
-  Dynodiad Tai Hefo Caniatad / Housing Allocation with Permission
-  Cyflogaeth / Employment




Caernarfon

Allwedd / Key






-  Ffin Datblygu - CDU / UDP Development Boundary
-  Ffin Datblygu (Adnau) / Development Boundary (Deposit)
-  Ffin Datblygu (NFf) / Development Boundary (FCh)
-  Llecynnuau Agored i'w Gwarchod / Protected Open Space
-  Dynodiad Tai Heb Ganiatâd / Housing Allocation without Permission
-  Dynodiad Tai Hefo Caniatad / Housing Allocation with Permission
-  Cyflogaeth / Employment




Llangefni



Allwedd / Key

-  Ffin Datblygu - CDU / UDP Development Boundary
-  Ffin Datblygu (Adnau) / Development Boundary (Deposit)
-  Ffin Datblygu (NFf) / Development Boundary (FCh)
-  Llecynnau Agored i'w Gwarchod / Protected Open Space
-  Dynodiad Tai Heb Ganiatâd / Housing Allocation without Permission
-  Dynodiad Tai Hefo Caniatad / Housing Allocation with Permission
-  Cyflogaeth / Employment
- Safleoedd Caniatâd Cynllunio / Sites with Planning Permission**
-  Tai heb eu gwblhau / Housing not completed (2011 - 2015)
-  Safleoedd Tai wedi eu cwblhau / Housing Sites Completed (2011 - 2015)

Benllech





Allwedd / Key

-  Ffin Datblygu - CDU / UDP Development Boundary
-  Ffin Datblygu (Adnau) / Development Boundary (Deposit)
-  Ffin Datblygu (NFf) / Development Boundary (FCh)
-  Llecynnau Agored i'w Gwarchod / Protected Open Space
-  Dynodiad Tai Heb Ganiatâd / Housing Allocation without Permission
-  Dynodiad Tai Hefo Caniatad / Housing Allocation with Permission
-  Cyflogaeth / Employment
- Safleoedd Caniatâd Cynllunio / Sites with Planning Permission**
-  Tai heb eu gwblhau / Housing not completed (2011 - 2015)
-  Safleoedd Tai wedi eu cwblhau / Housing Sites Completed (2011 - 2015)

Llanrug










Allwedd / Key


-  Ffin Datblygu - CDU / UDP Development Boundary
-  Ffin Datblygu (Adnau) / Development Boundary (Deposit)
-  Ffin Datblygu (NFf) / Development Boundary (FCh)
-  Llecynnau Agored i'w Gwarchod / Protected Open Space
-  Dynodiad Tai Heb Ganiatâd / Housing Allocation without Permission
-  Dynodiad Tai Hefo Caniatad / Housing Allocation with Permission
-  Cyflogaeth / Employment



Aberdaron

Allwedd / Key

-  Ffin Datblygu - CDU / UDP Development Boundary
-  Ffin Datblygu (Adnau) / Development Boundary (Deposit)
-  Ffin Datblygu (NFf) / Development Boundary (FCh)
-  Llecynnau Agored i'w Gwarchod / Protected Open Space
-  Dynodiad Tai Heb Ganiatâd / Housing Allocation without Permission
-  Dynodiad Tai Hefo Caniatad / Housing Allocation with Permission
-  Cyflogaeth / Employment
- Safle wedi ei Gwblhau / Site Completed**
-  Tai heb eu gwblhau / Housing not Completed (Ebr / Apr 2015)
-  Safleoedd Tai wedi eu cwblhau / Housing Sites Completed (2011 - 2015)













Sand and Shingle

Coast

Abererch







Allwedd / Key


-  Ffin Datblygu - CDU / UDP Development Boundary
-  Ffin Datblygu (Adnau) / Development Boundary (Deposit)
-  Ffin Datblygu (NFf) / Development Boundary (FCh)
-  Llecynnau Agored i'w Gwarchod / Protected Open Space
-  Dynodiad Tai Heb Ganiatâd / Housing Allocation without Permission
-  Dynodiad Tai Hefo Caniatad / Housing Allocation with Permission
-  Cyflogaeth / Employment
- Safle wedi ei Gwblhau / Site Completed**
-  Tai heb eu gwblhau / Housing not Completed (Ebr / Apr 2015)
-  Safleoedd Tai wedi eu cwblhau / Housing Sites Completed (2011 - 2015)



Bontnewydd

Allwedd / Key


-  Ffin Datblygu - CDU / UDP Development Boundary
-  Ffin Datblygu (Adnau) / Development Boundary (Deposit)
-  Ffin Datblygu (NFf) / Development Boundary (FCh)
-  Llecynnau Agored i'w Gwarchod / Protected Open Space
-  Dynodiad Tai Heb Ganiatâd / Housing Allocation without Permission
-  Dynodiad Tai Hefo Caniatad / Housing Allocation with Permission
-  Cyflogaeth / Employment
- Safle wedi ei Gwblhau / Site Completed**
-  Tai heb eu gwblhau / Housing not Completed (Ebr / Apr 2015)
-  Safleoedd Tai wedi eu cwblhau / Housing Sites Completed (2011 - 2015)



Bodffordd

Allwedd / Key


-  Ffin Datblygu - CDU / UDP Development Boundary
 -  Ffin Datblygu (Adnau) / Development Boundary (Deposit)
 -  Ffin Datblygu (NFf) / Development Boundary (FCh)
 -  Llecynnau Agored i'w Gwarchod / Protected Open Space
 -  Dynodiad Tai Heb Ganiatâd / Housing Allocation without Permission
 -  Dynodiad Tai Hefo Caniatâd / Housing Allocation with Permission
 -  Cyflogaeth / Employment
- ### Safleoedd Caniatâd Cynllunio / Sites with Planning Permission
-  Tai heb eu Gwblhau / Housing not Completed 2011 -2015
 -  Safleoedd Tai wedu eu cwblhau / Housing Sites Completed 2011 - 2015



Carmel

Allwedd / Key


-  Ffin Datblygu - CDU / UDP Development Boundary
-  Ffin Datblygu (Adnau) / Development Boundary (Deposit)
-  Ffin Datblygu (NFf) / Development Boundary (FCh)
-  Llecynnau Agored i'w Gwarchod / Protected Open Space
-  Dynodiad Tai Heb Ganiatâd / Housing Allocation without Permission
-  Dynodiad Tai Hefo Caniatâd / Housing Allocation with Permission
-  Cyflogaeth / Employment




Cwm y Glo

Allwedd / Key








-  Ffin Datblygu - CDU / UDP Development Boundary
-  Ffin Datblygu (Adnau) / Development Boundary (Deposit)
-  Ffin Datblygu (Nff) / Development Boundary (FCh)
-  Llecynnau Agored i'w Gwarchod / Protected Open Space
-  Dynodiad Tai Heb Ganiatâd / Housing Allocation without Permission
-  Dynodiad Tai Hefo Caniatâd / Housing Allocation with Permission
-  Cyflogaeth / Employment
- Safleoedd Caniatâd Cynllunio/Sites with Planning Permission**
-  Tai heb eu Gwblhau / Housing not Completed (Ebr/Apr 2015)
-  Safleoedd Tai wedi eu cwblhau / Housing Sites Completed (2011 - 2015)





Gwalchmai




Allwedd / Key

-  Ffin Datblygu - CDU / UDP Development Boundary
-  Ffin Datblygu (Adnau) / Development Boundary (Deposit)
-  Ffin Datblygu (NFf) / Development Boundary (FCh)
-  Llecynnau Agored i'w Gwarchod / Protected Open Space
-  Dynodiad Tai Heb Ganiatâd / Housing Allocation without Permission
-  Dynodiad Tai Hefo Caniatad / Housing Allocation with Permission
-  Cyflogaeth / Employment

Safleoedd Caniatâd Cynllunio / Sites with Planning Permission

-  Tai heb eu gwblhau / Housing not completed (2011 - 2015)
-  Safleoedd Tai wedi eu cwblhau / Housing Sites Completed (2011 - 2015)


Llandegfan



Allwedd / Key

-  Ffin Datblygu - CDU / UDP Development Boundary
-  Ffin Datblygu (Adnau) / Development Boundary (Deposit)
-  Ffin Datblygu (NFf) / Development Boundary (FCh)
-  Llecynnau Agored i'w Gwarchod / Protected Open Space
-  Dynodiad Tai Heb Ganiatâd / Housing Allocation without Permission
-  Dynodiad Tai Hefo Caniatad / Housing Allocation with Permission
-  Cyflogaeth / Employment
- Safleoedd Caniatâd Cynllunio / Sites with Planning Permission**
-  Tai heb eu gwblhau / Housing not completed (2011 - 2015)
-  Safleoedd Tai wedi eu cwblhau / Housing Sites Completed (2011 - 2015)

Trearddur









Allwedd / Key

-  Ffin Datblygu - CDU / UDP Development Boundary
-  Ffin Datblygu (Adnau) / Development Boundary (Deposit)
-  Ffin Datblygu (NFf) / Development Boundary (FCh)
-  Llecynnau Agored i'w Gwarchod / Protected Open Space
-  Dynodiad Tai Heb Ganiatâd / Housing Allocation without Permission
-  Dynodiad Tai Hefo Caniatad / Housing Allocation with Permission
-  Cyflogaeth / Employment
- Safleoedd Caniatâd Cynllunio / Sites with Planning Permission**
-  Tai heb eu gwblhau / Housing not completed (2011 - 2015)
-  Safleoedd Tai wedi eu cwblhau / Housing Sites Completed (2011 - 2015)

Tudweiliog

Allwedd / Key

-  Ffin Datblygu - CDU / UDP Development Boundary
-  Ffin Datblygu (Adnau) / Development Boundary (Deposit)
-  Ffin Datblygu (NFf) / Development Boundary (FCh)
-  Llecynnau Agored i'w Gwarchod / Protected Open Space
-  Dynodiad Tai Heb Ganiatâd / Housing Allocation without Permission
-  Dynodiad Tai Hefo Caniatad / Housing Allocation with Permission
-  Cyflogaeth / Employment
- Safle wedi ei Gwblhau / Site Completed**
-  Tai heb eu gwblhau / Housing not Completed (Ebr / Apr 2015)
-  Safleoedd Tai wedi eu cwblhau / Housing Sites Completed (2011 - 2015)

